YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR



# Tymor yr Hydref 2017 – Dosbarth Blwyddyn 1 a 2 Mrs Hiley

Thema'r tymor yw: **Albwm y Teulu.**

Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor!

**Sgiliau Cymhwysedd Digidol:**

- Datblygu ein sgiliau prosesu geiriau
- Datblygu sgiliau cadw ac adfer gwaith.

**Addysg Grefyddol:**

Trafod a dysgu am draddodiadau yn ymwneud â geni a bedyddio babanod.

Dysgu am 'seremoni enwi' y crefydd Siciaeth.

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

- Dysgu a darganfod am y newidiadau sy'n digwydd yn ystod y tymor yr Hydref ym Mharc Brynmelin.
- Dysgu am ein cyrff gan enwi rhannau'r corff a thrafod sut yr ydym ni'n wahanol neu yn debyg i'n gilydd. Trafod sut mae ein cyrff yn newid wrth dyfu.
- Dysgu am y gwahaniaethau ym mywydau plant heddiw a 'slawer dydd.

**Datblygiad Corfforol**

- Ymarfer a datblygu sgiliau gymnasteg.
- Ymarfer sgiliau llawdriniol manwl ar ein bwrdd bysedd prysur.

**Datblygiad Creadigol**

- Astudio gwaith arlunydd enwog, e.e. Van Gogh.
- Ymarfer sgiliau arlunio wrth greu portreadau gan ddefnyddio amrywiol ddulliau a meddalwedd Technoleg Gwybodaeth
- Dysgu caneuon newydd a defnyddio offerynnau taro i greu cyfeiliant i'r gerddoriaeth.

**Datblygiad Personol a Chymdeithasol**

- Dangos gofal, parch a hoffter at ein gilydd, tuag at oedolion a'n hamgylchedd.
- Dysgu am bwysigrwydd gofalu am ein cyrff.
- Dod yn fwy annibynnol a hyderus yn ein dysgu.

Bydd gwaith cartref mathemateg a llawysgrifen ar ddydd Gwener. Rhaid i ni geisio ei ddychwelyd ar ddydd Llun. Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol.

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion! www.yggbrynymor.co.uk Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd! @YGGBYMRHiley**

**Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu**

- Creu cornel chwarae ' Meddygfa a Clinic Babanod Bryn y Môr'
- Darllen a gwrando ar lawer o straeon doniol a diddorol.
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.
- Mwynhau ysgrifennu at bwrpasau gwahanol.
- Ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

**Ymweliadau**

Oriel y Glyn Vivian – 13/10/17 Bore

Parc Brynmelin – dyddiad i'w drefnu

**Datblygiad Mathemategol**

- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau .
- Ymarfer a gwella sgiliau adio a thynnu i ffwrdd.
- Defnyddio arian, ymarfer sgiliau mesur hyd ac astudio siap.
- Chwarae llawer o gemau mathemateg pen.